# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod | **24ain Tachwedd 2020** |
| Aelod Cabinet | **Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| Swyddog Cyswllt | **Llywela Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu** |
| Rhif Cyswllt | **32261** |
| Pwnc | **Hunaniaith** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR:**

I. Cefnogaeth i wneud gwaith pellach ar ystyried opsiynau posib yn y dyfodol ar gyfer Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd.

II. Sefydlu tasglu o swyddogion y Cyngor i adnabod y camau angenrheidiol sydd angen eu dilyn i greu achos busnes cadarn ar gyfer yr opsiynau posib.

**CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

Mae'n allweddol bwysig sicrhau fod Hunaniaith yn cyflawni i bobl Gwynedd yn y modd mwyaf effeithiol bosib. Ysgogodd yr adroddiad gan IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith at drafodaethau ynghylch sicrhau seiliau cadarn ar gyfer Hunaniaith i gyflawni i bobl Gwynedd i'r dyfodol.

Mae wedi arwain at argymhelliad gan Grŵp Stretegol Hunaniaith i sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol i'r dyfodol er mwyn gwireddu potensial Hunaniaith.

Rwyf o'r farn fod angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r opsiynau posib (gan gynnwys argymhelliad y Grŵp Strategol i sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol), ond fod angen ystyriaeth fanwl i'r buddion, risgiau a'r costau er mwyn dod i'r casgliad cywir.

Felly, rwy'n awyddus i gael cefnogaeth y Cabinet i edrych ymhellach ar yr opsiynau posib i'r dyfodol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Fel a nodir yn adroddiad IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith, sicrhawyd mewnbwn budd-ddeiliaid allweddol i'r adroddiad gwreiddiol. Cynhaliwyd trafodaeth ar y cyfleon i ddatblygu Hunaniaith ymhellach, a'r cyfeiriad i'w argymell, yng nghyfarfod Grŵp Strategol Hunaniaith ar 14/09/2020.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

Y Swyddog Monitro:

Mae'r argymhelliad yn cynrychioli cynnig priodol ar gyfer adolygu model darparu gwasanaeth Hunaniaeth mewn ymateb i gais y Grŵp Strategol . Fel y noda'r Swyddog Cyllid yn ei sylwadau mae angen cloriannu nifer o faterion llywodraethu, ariannol, cytundebol a staffio wrth ystyried symud i fodel amgen dichonadwy o ddarparu gwasanaeth. Dylai unrhyw argymhelliad i drosglwyddo i fodel amgen sydd yn deillio o'r gwaith adnabod cynllun gwaith sydd hefyd yn manylu ar yr adnoddau fyddai angen ar gyfer cyflawni hyn.

Y Pennaeth Cyllid:

> Cytunaf gyda barn yr Aelod Cabinet yn yr adroddiad uchod fod angen ystyriaeth fanwl i fuddion, risgiau a chostau'r opsiynau posib er mwyn i 'Hunaniaith' gyflawni yn effeithiol ac effeithlon i bobl Gwynedd.
> Byddai sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol yn gallu creu gorbenion anghymesur (erthyglau, cyfrifon, ayb) a chodi materion ymarferol i'w datrys (wrth drosglwyddo a chyflogi staff), felly dylid symud ymlaen yn ddiwyd.

**ATODIADAU**

Adroddiad Dafydd Iwan, Cadeirydd Grŵp Strategol Hunaniaith
Adroddiad IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith